# Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

## LS(3)-05-08(p.1): 9 Hydref 2008

#### Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad

#### Ymgynghoriad Mesur Llwybrau Dysgu:

#### Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan gydnabod y goblygiadau pellgyrhaeddol a phwysig a ddeuai yn sgil y Mesur.

Mae diddordeb y Bwrdd yn un sy'n amlwg yn ffocysu'n benodol ar effaith ieithyddol y Mesur ar brofiadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr 14-19 yng Nghymru. Cynigir isod rai sylwadau penodol, a chryno, felly i'w hystyried fel ymateb i'r ymgynghoriad.

1. Sicrhau hawlogaeth dysgwyr i ystod eang o gyfleoedd astudio ffurfiol ac anffurfiol, academaidd a galwedigaethol

Tra'n croesawu'r bwriad i sicrhau bod yna ystod eang o gyfleoedd yn agored i ddysgwyr, hoffem weld cyfeiriad at yr angen i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i astudio a derbyn cefnogaeth yn y Gymraeg, lle bo hynny'n bosibl. Yn y rhannau hynny o Gymru, lle nad oes darpariaethau dwyieithog ar hyn o bryd, mae angen cynllunio'n strategol er mwyn newid hynny.

Mae'r gallu i gynnig dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr yn dibynnu'n drwm ar gydweithio effeithiol rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardaloedd penodol. Er mwyn medru llunio cwricwla lleol, mae'r ddogfen ymgynghorol yn nodi y bydd yna ddyletswydd ar Brifathrawon, Cyrff Llywodraethol Ysgolion, AALl a sefydliadau Addysg Bellach i ystyried cydweithio er mwyn sicrhau dewislen opsiynau gydweithredol. Os felly, teimlwn y bydd angen i sawl partner allweddol ddod ynghyd er mwyn monitro bod yna gynnydd yn y cydweithio hwn. Mae angen, hefyd, sicrhau bod natur y partneriaethau nid yn unig yn hwb i greu mwy o ddewis - yn enwedig o ran dewisiadau galwedigaethol ond hefyd yn cadarnhau gallu dysgwyr i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng nghyswllt hyn, mae'r Cynlluniau Addysg Gymraeg a'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a gymeradwyir gan y Bwrdd yn y sector addysg 14-19 yn rhan annatod o'r gwaith o fonitro twf cyfleoedd astudio Cymraeg a dwyieithog, a hyderwn felly y byddant yn gwbl ganolog i'r gwaith o lunio a monitro cwricwla lleol fesul ardal.

Ar hyn o bryd, mae creu darpariaeth eangach cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi dibynnu ar ariannu penodol, byrdymor a chredir bod angen mwy o gynllunio strategol i alluogi creu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n hyrwyddo dilyniant priodol.

2. Cymorth dysgu personol a chyngor ac arweiniad gyrfaol

Teimlwn fod cyfle yma i gryfhau ar yr agweddau hynny sy'n ymwneud â chynnig cymorth drwy'r Gymraeg, a chyngor am fanteision dwyieithrwydd.

Nid oes modd gorbwysleisio'r pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth rôl yr Anogwyr Dysgu. Mae'r cyngor a roddir ganddynt yn bellgyrhaeddol ei ddylanwad ar ddyfodol pobl ifanc. Mae angen sicrhau felly bod yr Anogwyr yn gallu cynnig cyngor am fanteision dilyn addysg ffurfiol ac anffurfiol drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn atodol i hyn, dylid anelu bod yna Anogwyr Dysgu ymhob rhan o Gymru sy'n medru cynnig cyngor yn newis iaith y dysgwyr.

Yn ogystal â'r Anogwr Dysgu, cynigir cefnogaeth bersonol gan nifer o gyrff eraill gan gynnwys Gwasanaethau Ieuenctid. Nid oes gan gyrff felly y gallu i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn aml ac mae'n bwysig bod yr elfen hon yn derbyn sylw pellach o ran cynllunio ac ariannu. Ceir cyfle yma i Bartneriaethau Pobl Ifanc ystyried sut mae cryfhau darpariaeth cefnogaeth bersonol yn eu hardaloedd hwy mewn cydweithrediad â'r Rhwydweithiau Llwybrau Dysgu 14-19. Bydd hi'n briodol, hefyd, i Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc gydnabod yr anghenion o ran ehangu dewisiadau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a sicrhau bod cefnogaeth bersonol ar gael yn Gymraeg.

Mae angen sicrhau hefyd bod Cwmnïau Gyrfa Cymru yn cynnig gwasanaeth dwyieithog am fanteision sgiliau Cymraeg a dwyieithog. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn monitro gweithrediad Cynlluniau Iaith y Cwmnïau Gyrfa ac newydd gomisiynu arolwg o'r ffordd y mae'r 6 Chwmni Gyrfa wedi gweithredu'u Cynlluniau. Bydd cyfres o argymhellion yn cael eu cyflwyno er mwyn ceisio adeiladu ar y cyngor a'r arweiniad a roddir ganddynt. Hyderwn y bydd pob un Cwmni Gyrfa yn cynnig gwasanaeth sy'n cefnogi ac yn cyfoethogi'u cwricwlwm lleol gyda chyngor dwyieithog am fanteision dwyieithrwydd yn ganolog iddo.

Yn olaf, mae'r Mesur drafft hwn yn cefnogi datblygiadau sy'n sicrhau cyfleoedd cyfartal yn holl elfennau allweddol y Llwybrau Dysgu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Teimlwn, fodd bynnag, fod angen ffocysu'n fwy penodol ar y pwyslais sy'n cael ei roi i statws yr iaith Gymraeg. Byddai hyn, wrth reswm, yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu Cymru Ddwyieithog, 'Iaith Pawb'.

Rydym yn ymwybodol o'r ffaith ein bod yn tynnu sylw Llywodraeth y Cynulliad at rai o'r pwyntiau a nodir uchod yn gyson wrth ymateb i ymgynghoriadau'r sector addysg ôl-14. Hoffwn nodi, fodd bynnag, y gwnawn hynny gydag ysbryd adeiladol a chan bwysleisio ein bod yn barod iawn i gydweithio ac i drafod unrhyw un o'r pwyntiau sydd wedi'u nodi uchod mewn mwy o fanylder.

Dymunwn yn dda i chi felly gyda'r ymgynghoriad gan nodi fod pob croeso i chi gysylltu gyda ni os am drafod ymhellach.

Yn gywir

**Gari Lewis**

**Cyfarwyddwr Plant a Phobl Ifanc**